

Cyngor Cymuned Llanllyfni
Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 10ed o Ionawr 2012.

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Harry Wyn Owen , Dafydd Glyn Owen, Sharon Wynne Jones, D Martin Williams – Talysarn; Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir), Barry Bracegirdle, Elwyn Jones-Griffith, Menna Williams, Ifan Glyn Jones – Penygroes; T Les Jones – Nantlle; OP Huws – Cynghorydd Sir .

Adroddwyd bod trafferthion wedi bod yn y Fic, Penygroes eto, phenderfynodd y Cyngor gefnogi cais yr Heddlu i ddileu trwydded yr eiddo am gyfnod o dri mis, ar y sail o dor-cyfraith ac anrhefn, gwarchod plant, a niwsans cyhoeddus.

Cefnogwyd cais cynlluoio i ailgychwyn cloddio llechi o hen chwarel Ty Mawr West.

Gohebiaeth Cyngor Gwynedd

*Praesept – wedi trafodaeth, penderfynwyd cadw'r praesept yr un fath eto am eleni.

*Derbyniwyd gwybodaeth am waharddiad traffic dros dro ar ffordd ddi-ddosbarth Nasareth a Nebo, a gwaharddiad dros dro ar lwybr 78 ac 80, Nebo.

*Gofynwyd am sylwadau'r Cyngor ar Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – roedd y Cyngor yn credu bod angen nodi Chwarel Dorothea fel safle pwysig yn y dyffryn am ei bod yn safle ddiwydiannol hanesyddol i'w chadw i anghenion y boblogaeth leol. Byddwn yn cynnig bod y safle yma i'w gael ei gadw fel safle pwysig a'i ddatblygu fel parc. Yn ogystal, teimlwyd bod y Dyffryn yn fyr o dir datblygu ar gyfer creu swyddi, a byddwn yn nodi bod angen ehangu Stad Ddiwydiannol Penygroes am gors Tan y Bryn.

Adroddiadau Pentrefi.

Talysarn: Derbyniwyd cwynion am faw ci ar y palmant am Bro Silyn; Hefyd, mae motorbeics yn cael eu gyrru rownd chwarel Dorothea. Traciau motorbeic yn mynd o'r chwarel a thrwy'r giat mochyn am y Trim Trac, a heibio'r pwmp dwr – byddwn yn cysylltu gyda'r cyngor, a gofyn am arwydd 'Dim Beiciau Modur'. Cwyn gyffredinol oedd hon am y peryglon.

Penygroes Roedd y Cynghorwyr Elwyn Jones Griffith a Dyfed Edwards wedi mynychu cyfarfod yn ystod y mis, a drefnwyd gyda Tai Cymunedol. Trafodwyd y fflatiau yn Trem yr Wyddfa, a roedd y Cyngor yn gresynu bod y bobl sy'n byw gyfagos yn dioddef cymaint oherwydd yr holl drafferthion yn y fflatiau. Dylid monitro'r sefyllfa yn agos a gwneud rhywbeth rhag blaen.; Derbyniwyd cwyn am faw cwn yn cae chwarae Cwting, a bod hyn yn creu perygl i'r plant. Roedd bageidiau ohono yn bin y cae chwarae, er bod bin pwrpasol ar gyfer baw ci y pen arall i'r bont. Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd eto am arwydd mwy i rybuddio pobl nad oes cwn i fod yn y cae chwarae. Mae angen bin arall pwrpasol i ddal baw cwn ochr y cae chwarae o'r bont. Roedd cwynion am faw cwn ar strydoedd Penygroes hefyd, Ffordd Llwyndu, Stryd yr Wyddfa, o Garej Povey ar hyd y llwybr at y ffordd osgoi. Byddwn yn cysylltu gyda'r Swyddog Cwn, Cyngor Gwynedd.

Materion yn ymwneud a'r heddlu. Goleuadau beics. Derbyniwyd cwynion bod llawer o blant yn y pentrefi yn mynd ar eu beics heb oleuadau yn y tywyllwch, sydd yn beryglus iddynt hwy eu hunain, ac i gerddwyr. Oherwydd hyn, mae'r heddlu yn gobeithio cael grant i brynu goleuadau beic i rai o blant y Dyffryn, a gofynwyd i'r Cyngor os y byddent yn fodlon ariannu goleuadau beic ar gyfer plant cynradd. Roedd y Cyngor yn hapus i gydweithio gyda'r heddlu ar hyn.